


ymgyrch
#byddaf

# PECYN RECRIWTIO LLYSGENHADON #IWILL

Popeth sydd angen ei wybod cyn gwneud cais i fod yn Llysgennad #iwill

ymgyrch #byddaf

# BETH YW’R MUDIAD #IWILL?

| | |
|---|---|
|  | Mae Mudiad #iwill yn dod â phobl ifanc sydd eisiau newid pethau at ei gilydd |
|  | Mae’r bobl ifanc yma rhwng 10 a 25 oed |
|  | Mae tua 400 o bobl ifanc yn rhan o Fudiad #iwill |
|  | A thros 1,000 o sefydliadau hefyd |
|  | Rydyn ni’n dangos bod pobl ifanc eisiau bod yn rhan o benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw a’u cymuned |
|  | Rydyn ni am i ragor o bobl ifanc a sefydliadau ymuno â ni |

# BETH MAE LLYSGENNAD #IWILL YN EI WNEUD?

| | |
|---|---|
|  | Mae Llysgenhadon #iwill yn ceisio newid a gwella pethau yn eu hardal. Gweithredu cymdeithasol yw’r enw ar hyn. |

Mae Llysgenhadon #iwill hefyd yn hoffi dweud wrth bobl ifanc eraill pam y dylen nhw geisio newid pethau hefyd.

Ac maen nhw eisiau siarad â sefydliadau am sut y gallan nhw newid a gwella pethau.

## PA FATH O BETHAU MAE LLYSGENHADON #IWILL AM EU NEWID?

Mae rhai Llysgenhadon #iwill eisiau achub y blaned ac annog eraill i wneud pethau fel lleihau faint o blastig maen nhw'n ei ddefnyddio.



Mae rhai Llysgenhadon #iwill eisiau i bawb deimlo’n ddiogel ac eisiau i bobl drin pobl eraill sy’n wahanol iddyn nhw â pharch.

Mae rhai Llysgenhadon #iwill eisiau gwneud yn siŵr nad oes neb yn newynog ac eisiau newid sut mae bwyd yn cael ei roi i bobl sydd ei angen.



Mae Llysgenhadon #iwill eisiau newid llawer o bethau gwahanol, ond maen nhw i gyd yn ceisio gwneud y byd yn lle gwell i bawb.

ymgyrch #byddaf

# SUT BYDD LLYSGENHADON #IWILL YN NEWID PETHAU?

| | |
|---|---|
|  | Mae Llysgenhadon #iwill yn gwneud llawer o bethau. Mae rhai'n gwirfoddoli. |
|  | Mae rhai'n ymgyrchu. Gallai hyn olygu siarad am bwnc yn gyhoeddus, neu ar-lein. Neu'r ddau. |
|  | Mae rhai'n siarad â chwmnïau a sefydliadau i'w helpu i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl ifanc |
|  | Mae rhai'n codi arian i helpu achos sy'n agos at eu calon |
|  | Mae llawer o ffyrdd o newid pethau |

# PWY ALL FOD YN LLYSGENNAD #IWILL?

| | |
|---|---|
|  | Os ydych chi rhwng 10 a 24 oed |
|  | Yn byw neu yn dod o Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon |

Yn rhywun cadarnhaol sydd am helpu eraill a chreu newid

## SUT I WNEUD CAIS

| | |
|---|---|
| | Os hoffech chi wneud cais, llenwch y ffurflen fer yma https://www.iwill.org.uk/get-involved/dod-yn-llysgennad/ |
| | Gallwch wneud cais ysgrifenedig, neu anfon fideo neu nodyn llais os yw’n well gennych chi |
| @ | Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi, anfonwch e-bost i iwill@ukyouth.org |